FFURFLEN GAIS AM GWMNIAU PRESWYL YN Y CELFYDDYDAU PERFFORMIO
CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH

Mae'r cyfnod preswyl yn cynnig:
Cefnogaeth am DDAU gwmni y flwyddyn
Mae'r meini prawf canlynol yn gymwys:-
Rhaid i'r darn a gynigir fod yn waith newydd, i'w ddatblygu yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth.
Rhaid i'r darn gynnwys elfen o berfformiad byw.
Bydd y cynigiad yn arwain at gyflwyniad ymarferol, yn rhan o berfformiad neu'n berfformiad llawn, yn dibynnu ar natur y prosiect.
Bydd y Ganolfan yn darparu:

- Lle i ymarfer yn ystod y dydd
- Rhywfaint o gefnogaeth dechnegol
- Cyngor ac arweiniad ar farchnata a chyhoeddusrwydd
- Slot yn y rhaglen lle bo'n addas
- Yn ogystal, cyfraniad o £1500 tuag at gostau cynhyrchu

Gwerthusir yr ymgeiswyr ar feini prawf yn cynnwys rhagoriaeth artistig neu broffesiynol gwaith yr ymgeisydd, ac i ba raddau y byddai cyfnod preswyl yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn cyfrannu tuag at ddatblygiad yr artist ac yn cydfynd â nodau creadigol a datblygiad proffesiynol yr ymgeisydd.

SUT I WNEUD CAIS

Y **dyddiad cau** ar gyfer ceisiadau yw Mawrth 1af.2010
Hysbysir yr ymgeisydd llwyddiannus erbyn Mawrth 31ain 2010
Dylai ymgeiswyr lenwi'r Ffurflen Gais am gyfnod Breswyl a'i hanfon at y cyfeiriad a nodir ar y ffurflen, ynghyd ag unrhyw wybodaeth atodol, CVs ac enwau canolwyr fel bo'n addas.
Os oes angen rhagor o ffurflenni trwy'r post neu'r e-bost, e-bostiwch sgm@aber.ac.uk os gwelwch yn dda.
Neu ffoniwch 01970 621 512 am sgwrs anffurfiol.

Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yw'r ganolfan gelf fwyaf a phrysuraf yng Nghymru gyda rhaglen eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar draws holl ffurfiau'r celfyddydau. Croesewir dros 700,000 o ymwelwyr y flwyddyn ac mae'r Ganolfan yn cyflogi 40 o staff llawn amser a 119 rhan amser.
Yn 2000, bu'r Ganolfan yn cwblhau prosiect datblygu sylweddol gwerth £4.3 miliwn gydag arian oddi wrth y Loteri Genedlaethol yn bennaf, a bellach mae ganddi gyfleusterau heb eu hail yn y DU. Fe'i hystyrir fel canolfan genedlaethol arloesol ar gyfer datblygu'r celfyddydau. Mae'n adran o Brifysgol Aberystwyth.
Mae'r adeilad yn cynnwys neuadd gyngerdd, theatr, dwy oriel, oriel serameg barhaol, sinema, theatr gron, gweithdai (gan gynnwys crochendy, ystafell dywyll, stiwdio recordio a labordy digidol), dau gaffi, siop Grefft a Dylunio, Siop Lyfrau, barrau a chyfleusterau ôl-lwyfan a gweinyddol llawn. Mae'r rhaglen artistig yn un hynod amrywiol, yn cynnwys y celfyddydau perfformio, llenyddiaeth, y celfyddydau gweledol a chrefftau, cerddoriaeth a chelfyddydau cymunedol; mae'r Ganolfan hefyd yn cynnal nifer o Wyliau rhyngwladol.
Mae gan y Ganolfan hanes o greu a chynnal gweithgareddau llwyddiannus sy'n cyfrannu at ethos y Ganolfan ac sydd hefyd yn helpu gyda'r ochr ariannol; Mae'r incwm a enillir yn cynrychioli dros 70% o'r cyfanswm - sy'n uwch o lawer na chyfleusterau diwylliannol cyffelyb yn y DU. Mae'r ganolfan yn cynnig gwasanaeth pwysig a llwyddiannus sy'n chwarae rôl gynyddol hanfodol wrth i incwm o'r diwydiannau traddodiadol barhau i ddirywio.
Mae rhaglen y celfyddydau perfformio yn un eang o safon uchel sy'n cynnwys dawns a drama o'r DU a thramor megis Theatr Out Of Joint, Amajuba, Theatre de Complicite, Hull Truck; cwmniau sy'n seiliedig yng Nghymru fel Mappa Mundi a Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru; Cerddoriaeth Glasurol gydag Opera Genedlaethol Cymru a Catrin Finch; cynyrchiadau ieuenctid a chymunedol a rhaglen o gerddoriaeth boblogaidd o bob math.
Mae rhaglen ddatblygiad proffesiynol y Ganolfan hyd yma yn cynnwys prosiectau dwys gyda chwmniau unigol megis Beauty (mewn cydweithrediad â Hope St Lerpwl) a Deep Blue (mewn cydweithrediad â chwmni dawns Diversions). Yn ogystal â'r cyfnodau preswyl bu'r cwmniau dawns oedd yn ymweld yn cydweithio gyda Dawns Annibynnol Cymru a Dawns Gymunedol Cymru. Ar hyn o bryd mae'r Ganolfan yn gweithio gyda Kaite O'Reilly ar y prosiect Travelling Light II - sef rhaglen ddatblygiad ar gyfer ysgrifenwyr proffesiynol sy'n anelu at gynhyrchu cyfres o ddramâu un-act.
Mae rhaglen addysg y celfyddydau cymunedol yn cynnwys 'Llwyfan Agored' sy'n cynorthwyo ymarferwyr newydd ym myd cerddoriaeth, dawns, theatr a pherfformiad i gyflwyno eu gwaith mewn modd proffesiynol. Trefnir sesiynau gydag Artistiaid mewn Ysgolion a chynhelir gweithdai yn y Ganolfan ym maes y celfyddydau gweledol, dawns, drama, cerddoriaeth ac ysgrifennu ar gyfer plant ysgol. Yn ogystal, mae'r dobarthiadau wythnosol rheolaidd yn annog creadigedd ac yn ychwanegu at les yr unigolyn.

FFURFLEN GAIS AM GWMNIAU PRESWYL YN Y CELFYDDYDAU PERFFORMIO
CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH

ENW……
Cyfeiriad……
……
……
Ffôn…….
Ffôn symudol……
E-bost……..(*cydnabyddir ceisiadau trwy'r e-bost)*

- Hoffwn wneud cais am gyfnod preswyl am hyd at chwe mis Mai 2010 - Hydref 2010
- Cadarnhaf y bydd y gwaith a gyflwynir yn cynnwys elfen o berfformiad
- Cadarnhaf y datblygir y prosiect yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth
- Cadarnhaf y bydd y prosiect yn arwain at gyflwyniad ymarferol, yn rhan o berfformiad neu'n berfformiad llawn, yn dibynnu ar natur y prosiect.
- Derbyniaf y bydd y grant a roddir yn cael ei wario ar y prosiect yn unig.

.

A WNEWCH ANFON OS GWELWCH YN DDA:

1. Datganiad byr o ddim mwy na 250 o eiriau yn egluro paham yr hoffech gymryd rhan mewn Rhaglen Breswyl Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth ar gyfer Cwmniau Perfformio, a sut yr ydych yn bwriadu treulio'r amser.
3. Curriculum vitae yn cynnwys manylion am unrhyw hyfforddiant proffesiynol.
4. Unrhyw ddogfennau perthnasol (e.e. erthyglau/adolygiadau neu bapurau ynglyn â'ch gwaith).

CANOLWYR
A wnewch nodi enwau a manylion cyswllt dau ganolwr os gwelwch yn dda. Dylai o leiaf un ohonynt fod â gwybodaeth am eich gwaith o safbwynt proffesiynol.

1……
……..
Ffôn…….E-bost…….
2……
……..
Ffôn…….E-bostl……

Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau, gydag unrhyw atodiadau perthnasol (delweddau/datganiad artist/ CV) unai drwy'r e-bost at:
Sarah Morton - sgm@aber.ac.uk neu drwy'r post at:
Sarah Morton
Cwmniau Preswyl y Celfyddydau Perfformio
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
Prifysgol Aberystwyth
Rhiw Penglais
Aberystwyth SY23 3DE
Ffôn: 01970 621 512

DYDDIAD CAU: **DYDD LLUN 1AF MAWRTH 2010**

www.aber.ac.uk/artscentre